ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Medi 2002, am 2.00pm
Y Ganolfan Ddinesig, Penllergaer

Presennol

Geoff White:	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris:	CBS Castell-nedd Port Talbot
Vaughn Thomas:	CBS Castell-nedd Port Talbot
John Flower:	CBS Castell-nedd Port Talbot
Alban Forster:	SLR Consulting Cyf
Tony Yates:	SLR Consulting Cyf
Nick Oakes:	Cyngor Sir Ceredigion
Graham Dorrington:	Cyngor Sir Ceredigion
Andrew Adcock:	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Niall Reynolds:	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Carol Williams:	Cyngor Sir Benfro / Parc Cenedlaethol Sir Benfro
Richard Crawshaw:	Fforwm Economaidd De-orllewin Cymru
Peter Kendall:	Cyngor Sir Caerfyrddin
Neil Bateman:	Cyngor Sir Caerfyrddin
Gareth Jones:	Cyngor Sir Caerfyrddin
Cathy O'Brien:	Uned Strategaeth Gwastraff (LlCC)
Paul Meller:	Dinas a Sir Abertawe
Clifford Parish:	Dinas a Sir Abertawe
Adrian Stewart:	WESA
Huw Jenkins:	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-ar-bont ar Ogwr
Steve Bool:	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-ar-bont ar Ogwr

1. **Ymddiheuriadau**

Sarah Downes:	WRAP
John Sheppard:	Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru
Ruth Brown:	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

2. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31ain Mai 2002**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3. **Adroddiad Asesiad Strategol Drafft**

Cadarnhaodd GW fod yr holl wybodaeth wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod, er iddo gael problemau'n argraffu tablau 2.2, 2.8, 2.9a, 2.9b, 2.10a a 2.10b o'r adroddiad. ***(Gweithredu: TY i ddatrys y broblem a GW i ddosbarthu'r data sydd ar goll).***

Rhoddwyd cyflwyniad gan Alban Forster ar yr Adroddiad Asesiad Strategol Drafft. Dosbarthwyd copi o'r cyflwyniad ac felly nid oes angen ymhelaethu.

Bu trafodaeth wedyn a nodwyd y prif bwyntiau canlynol.

- Dylid anfon yr holl sylwadau manwl ar yr Adroddiad Asesiad Strategol Drafft yn uniongyrchol at

SLR Consulting Cyf. erbyn dydd Gwener 27ain Medi 2002. ***(Gweithredu:Pawb).***

- Hysbysodd CO y Grŵp ym marn Grŵp Technegol De-ddwyrain Cymru y byddai'n llesol i gytuno ar nifer o ragdybiaethau i'w defnyddio ar draws Cymru. Cytunwyd y dylai'r Rhanbarthau ymgynghori ar y mater hwn.

- Mynegwyd pryder ynghylch y bylchau yn yr ymchwil ac a fyddai casglu rhagor o ddata'n gallu digwydd ar yr un pryd â chynnydd. Cadarnhaodd AF mai'r data sydd ar gael yw'r gorau posibl ar hyn o bryd ac ni allai weld unrhyw broblemau symud y broses yn ei blaen gyda'r bylchau presennol yn y data.

- Mynegodd GW gonsyrn ynghylch mater rhagolygon. Pwysleisiodd CP yr angen i ganolbwyntio ar y cyfraddau twf awgrymedig o ran codi gwastraff. Dywedodd AF fod y rhagdybiaethau neu senarios tyfiant a ddefnyddir yn gryf ac yn briodol. Nodwyd hefyd y gellir profi cyfraddau twf gwahanol fel rhan o brofi sensitifrwydd.

- Cododd CO fater nentydd gwastraff croes-ranbarthol. A ddylai'r Adroddiad nodi symudiadau gwastraff ar draws ffiniau rhanbarthol? Esboniodd AF fod rhagdybiaeth o hunaniaeth ranbarthol yn bodoli.

Cytunwyd bod y grŵp yn fodlon yn gyffredinol ar yr Adroddiad a'r rhagdybiaethau a wnaed.

4. **Agenda ar gyfer Cyfarfod yr Aelodau ar 24ain Hydref 2002**

Cadarnhaodd GW y manylion ar gyfer cyfarfod yr Aelodau am 10.30am dydd Iau 24ain Hydref.

Eitemau ar gyfer yr agenda'n cynnwys: Cyfansoddiad, y strategaeth ar gyfer ymgynghori a Chymeradwyo fersiwn Derfynol yr Adroddiad.

5. **Seminar ar 24ain Hydref 2002, sy'n cynnwys strategaeth ar ymgyynghori**

Hysbysodd GW y Grŵp am seminar a gynhelir yn syth ar ôl cyfarfod yr Aelodau. Bydd yn seminar 'gwahoddiad agored' ar gyfer y Grŵp Technegol, Fforwm yr Aelodau a buddiolwyr yn ogystal â sefydliadau rhanbarthol/cenedlaethol y mae ganddynt ddiddordeb ynddo, i edrych ymlaen at ail ran y broses.

Argymhellodd RC yr angen i wahodd cynrychiolwyr o'r gymuned fusnes (Ffederasiwn Busnesau Bychain/ Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain/ Siambr Fasnach ac ati). Cytunwyd.

Cytunwyd i lunio a dosbarthu rhestr o ddarpar gynrychiolwyr ar gyfer pob un o'r grwpiau ymgynghori. ***(Gweithredu: GW).***

6. **Telerau'r Cytundeb**

Cytunwyd i gadarnhau Telerau Cytundeb y Grŵp Technegol

7. **Dyddiad cyfarfod nesaf y Grŵp Technegol (ar ôl y Seminar)**

Cytunwyd y cynhelid cyfarfod nesaf y Grŵp Technegol am 10.00am dydd Mercher 22ain Ionawr 2003, yng Nghanolfan Ddinesig Penllergaer.

Cytunwyd hefyd i barhau â'r Grŵp Llywio tan y dyddiad hwnnw o leiaf.

8. **Unrhyw fusnes arall**

Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.